CYNGOR CYMUNED TREFRIW

# Adroddiad Blynyddol 2023/24

## Croeso i Adroddiad Blynyddol Trefriw a Llanrhychwyn

Eich Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol / Clerc Claddu (y “Clerc”) ydy Vikki Teasdale.

Eich Cynghorwyr Cymuned (y “Cynghorwyr”) am y flwyddyn oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Kim Ellis | Cadeirydd | Ward Trefriw |
| Jasmine Kelly | Is-gadeirydd | Ward Trefriw |
| Idris Bowen | | Ward Trefriw |
| Bronwyn Griffith | | Ward Llanrhychwyn |
| Jackie Jewett | | Ward Trefriw |
| Wil Morris | | Ward Trefriw |

| | |
|---|---|
| Stephen White | Wedi ymddiswyddo Hydref 2023 |
| Gareth Siddorn | Wedi ymddiswyddo Rhagfyr 2023 |
| Lucy Williams | Wedi ymddiswyddo Ionawr 2024 |

Wrth i’r flwyddyn hon ddod i ben, mae tair sedd wag fel Cynghorwyr i’w llenwi – dwy ar gyfer Trefriw ac un ar gyfer Llanrhychwyn. Cysylltwch gyda’r Clerc ar clerk@trefriwcommunitycouncil.co.uk neu ffoniwch 07305 316095 os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â’r Cyngor Cymuned.

Fel Cyngor Cymuned rydym yn gwneud ein gorau glas i wneud y canlynol:

- Cynrychioli a bod yn llais i’n cymunedau.
- Gweithio i dderbyn gwasanaethau sy’n cwrdd ag anghenion lleol ac yn gwella ansawdd bywyd ein trigolion.
- Dylanwadu, galluogi a chefnogi grwpiau cymunedol.

Cyfleusterau’r pentref y mae’r Cyngor Cymuned yn eu monitro, ac efallai yn eu rheoli, ar ran y gymuned:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mynwent Trefriw | Neuadd y Pentref | Parciau chwarae ar Ffordd Gower ac wrth Fro Geirionydd | Toiledau Cyhoeddus |

Fodd bynnag, er y byddwn yn ymgynghori’n rheolaidd gyda chyrff priodol, NID ydy’r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y canlynol:

- Ffyrdd / Priffyrdd / Cynllunio
- Casglu Gwastraff / Sbwriel
- Tai Cyngor a Budd-daliadau
- Addysg ac Ysgolion

**Beth mae eich Cyngor Cymuned wedi bod yn ei wneud yn 2023/24**

**Mynwent Trefriw** Bu inni ddechrau ar y gwaith i sicrhau bod estyniad y fynwent ar Ffordd Cowlyd ar gael i'w ddefnyddio. Mae mynediad newydd i'r fynwent drwy'r wal derfyn ynghyd â ffens newydd wedi'i gosod i atal unrhyw anifeiliaid. Caiff gwaith pellach ei wneud yn 2024/25 er mwyn sicrhau bod digon o lefydd claddu i'n trigolion yn y dyfodol. Os oes arnoch chi angen trafod angladd anwylyd ichi, cysylltwch gyda'r Clerc ar clerk@trefriwcommunitycouncil.co.uk neu ffoniwch 07305 316095.



**Parc Chwarae Plant Trefriw** Bu inni lwyddo i ennill cyllid grant i osod cylchfan sy'n addas i bawb yn y parc chwarae ar Ffordd Gower. Caiff y darn newydd yma o offer chwarae ei osod yn ystod haf 2024 a bydd yn gwella profiad chwarae'r nifer o blant sy'n mwynhau chwarae yno. Mae Ymddiriedolwyr y Parc a'r Cyngor Cymuned wedi parhau i gydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i archwilio a chynnal yr offer chwarae.



Mae **Neuadd y Pentref** ar gael i'w hurio ar gyfer pa bynnag faint o weithiau, boed yn ddigwyddiadau rheolaidd neu rai untro, ac mae'n wych gweld y cyfleuster arbennig yma yn y pentref yn cael ei ddefnyddio unwaith eto wedi cyfnod heriol Covid. Boed yn ddosbarth ffitrwydd, arwerthiant cacennau elusennol, clwb ffilmiau neu Noson Lawen, cysylltwch gyda'r Clerc ar clerk@trefriwcommunitycouncil.co.uk neu ffoniwch 07305 316095 gydag unrhyw ymholiad.




**Bore Coffi Misol** gyda chyfle i gyfarfod eich Cynghorydd. Cafodd y rhain eu cynnal yn Neuadd y Pentref ar ail ddydd Iau y mis gyda chroeso i bawb. Dewch am sgwrs gyda'ch cymdogion dros baned a chacen gyda chyfle i chwarae gêm o gardiau os hoffech chi.

Cafodd y **sgipiau** eu darparu bob mis ar Ffordd Gower gyda'r trigolion yn rhydd i'w defnyddio am ddim.



**Coeden Nadolig a goleuadau Nadolig** Yn 2023/24 cafodd coeden ei rhoi i'r gymuned gyda thrigolion lleol yn cludo a gosod y goeden, bu inni ddiolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled. Cafodd y goeden ei gosod yn iard Eglwys y Santes Fair i bawb ei gweld, a bu i'r Cyngor Cymuned helpu i gefnogi Trefriw Awyr Agored i ddarparu gwin poeth, tameidiau a mins peis yn Neuadd y Pentref ar ôl troi'r goleuadau ymlaen.



**Cylchlythyrau Tymhorol** Rydym yn gobeithio eich bod wedi gweld ein cylchlythyrau o gwmpas y pentref ac yn eu gweld yn ddefnyddiol. Os hoffech chi dderbyn fersiwn electroneg o'r rhain, cysylltwch gyda jasminekellytcc@gmail.com




Mae **Clefyd Gwywiad yr Onnen** yn cael effaith ar goed ledled Prydain, ac mae'r Cyngor wedi bod yn gyfrifol am reoli cyflwr a diogelwch coed ynn ar ei dir hamdden ar hyd Llwybr Trefriw 1. Bydd y Cyngor yn adeiladu ar y cronfeydd cyfredol wrth gefn er mwyn sicrhau bod yr archwiliadau a gwaith angenrheidiol ar y coed yn parhau yn unol â'r rhaglen waith saith mlynedd sydd mewn lle.




Mae **Llwybr Trefriw 1** gerllaw Ffordd Gower yn anffodus yn dioddef o lifogydd sawl gwaith y flwyddyn bellach ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a CBSC i geisio adfer wyneb y llwybr fel bod modd ei ddefnyddio'n llwyr.



Mae angen peintio **Meinciau'r Pentref** yn rheolaidd ac mae'r Cyngor wedi bod yn brysur yn gwneud hyn yn flynyddol. Caiff unrhyw gymorth gyda'r gwaith peintio ei werthfawrogi bob tro.



Caiff sesiynau **Casglu Sbwriel** eu trefnu yn dymhorol i gadw ein pentref bach mor daclus â phosibl.



Cafodd **Hawliau Tramwy** eu cynnal, gydag ad-daliad rhannol gan CBSC. Bu i'r Cyngor hefyd barhau i weithio gyda grŵp Trefriw Awyr Agored i gadw Hawliau Tramwy cyhoeddus yn glir drwy gerdded ar y llwybrau a rhoi gwybod am unrhyw broblemau i'r awdurdod priodol.





**Felly, sut mae'r Cyngor yn talu am hyn i gyd?** Mae'r Clerc yn amcangyfrif beth fydd ei angen ar y Cyngor i ddarparu'r holl wasanaethau sydd eu hangen i reoli popeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (y gyllideb) ac yna'n gweithio allan faint o archebiant sydd ei angen gan ystyried, a thynnu, incwm tebygol am y flwyddyn o bethau fel llogi'r Neuadd Bentref a ffioedd y fynwent. Caiff y swm yma yna ei gynghori i CBSC sydd yna'n codi pris y gyllideb hon ar y trigolion fel rhan o'r Dreth Cyngor blynyddol (mae CBSC hefyd yn cynnwys elfennau fel yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân).

Ar gyfer y flwyddyn 2023/24 y swm blynyddol gafodd ei godi ar gyfer cyllideb y Cyngor Cymuned i eiddo Band D oedd £66.68 – sef dim ond £5.66 y mis.

**Gwybodaeth Bellach**

Caiff **eich Clerc** ei chyflogi yn rhan-amser gan y Cyngor Cymuned ac mae'n derbyn cyflog.

Caiff **eich Cynghorwyr** eu hethol neu gyfethol i'r swydd ac maent yn rhoi o'u hamser am ddim.

**Eich Cynghorydd Sir** ydy Cynghorydd Liz Roberts sy'n mynychu ein cyfarfodydd Cyngor misol a boreau coffi pan fydd ei hamserlen waith yn caniatáu hynny. Mae modd cysylltu gyda Liz ar cllr.liz.roberts@conwy.gov.uk neu 01690 750246.

Caiff **Cyfarfodydd y Cyngor** eu cynnal yn fisol, ac eithrio ym mis Chwefror a mis Awst, ac mae'n rhaid i'r Cynghorwyr fynychu oni bai bod ganddynt reswm cymhellol dros beidio â mynychu. Yn 2023/24 cafodd y cyfarfodydd hyn eu cynnal yn rhithwir dros Skype. Cafodd côd cyfarfod ei hysbysebu ar bob agenda cyfarfod fel bod aelodau'r cyhoedd yn gallu ymuno â'r cyfarfodydd os oeddynt yn dymuno gwneud hynny.

Caiff **agenda a chofnodion cyfarfodydd** eu gosod ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned, ynghyd ag unrhyw ddogfennau perthnasol eraill. Maent hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned ar www.trefriwcommunitycouncil.co.uk. Mae gan y wefan hefyd galendr o ddigwyddiadau, dogfennau polisïau statudol ac sydd wedi'u mabwysiadu, a newyddion a gwybodaeth eraill sy'n berthnasol i'r gymuned.

**Facebook** Mae gan Gyngor Cymuned Trefriw ei dudalen Facebook ei hun er mwyn rhannu gwybodaeth bwysig. Ei enw ydy "Trefriw Community Council".

**Hyfforddiant** Mae eich Cynghorwyr a'r Clerc yn mynychu amrywiaeth o fodiwlau hyfforddiant yn ogystal â chael cyfle i fynd i gyfarfodydd a webinarau allanol i wella eu dealltwriaeth o'r gyfraith a gofynion eraill llywodraeth leol. Mae'r Clerc a'r Cadeirydd hefyd yn mynd i gyfarfodydd fforwm Cynghorau Tref a Chymuned CBSC er mwyn cadw mewn cysylltiad gydag allgynnyrch sy'n bwysig i'n cymuned. Mae'r Clerc mewn cysylltiad rheolaidd gyda fforwm i Glercod.

Caiff **Ceisiadau Cynllunio** eu hadolygu wedi'u derbyn, a'u manylu yng nghofnodion cyfarfodydd.

**Toiledau Cyhoeddus** Rydym yn parhau i fonitro pa mor ar gael ydy'r toiledau cyhoeddus ar Ffordd Gower. CBSC sy'n eu rheoli ar y funud ond maent dan fygythiad o gael eu cau oherwydd cyfyngiadau cyllideb y Cyngor Sir. Mae'n debyg y bydd CBSC yn cyhoeddi cau toiledau cyhoeddus ar draws y sir yn y dyfodol agos, sy'n golygu y byddai'n rhaid i CCT ystyried dichonoldeb a chostau cymryd y toiledau drosodd. Bydd y Cyngor yn ceisio eich barn mewn sesiwn Ymgysylltu â'r Gymuned yn y gwanwyn.

**Dim Plastig** Bu inni ymuno â grŵp Plastic Free Betws and District a gweithio gyda'n gilydd i redeg digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i leihau neu gael gwared ar blastig yn yr ardal.

Mae **Diffibrilwyr** yn ac o gwmpas y pentref i'w cael yn The Princes Arms, Roualeyn Nursery, Neuadd y Pentref, croesfan Llanrhychwyn, Caffi Crafnant, Llyn Geirionnydd, Nant BH a Chlwb Rygbi Nant Conwy.

| **Crynodeb o Gyfrifon 2023/24** | **£** |
|---|---|
| Archebiant | 25,353.13 |
| Ad-daliad TAW | 484.68 |
| Incwm o Logi Neuadd y Pentref | 1,933.69 |
| Ffioedd Mynwentydd Trefriw a Llanrhychwyn | 4,160.00 |
| Cynnal a chadw'r Llwybr Cyhoeddus, ad-daliad rhannol gan CBS Conwy | 1,000.00 |
| Arian buddsoddi wedi'i dynnu er mwyn talu am gostau<br>(i) Estyniad y fynwent a<br>(ii) (ii) gliniadur newydd i'r swyddfa | 5,825.00 |
| Arian wedi'i drosglwyddo o gronfeydd cyffredinol er mwyn talu am wariant annisgwyl | 1,193.84 |
| Derbyniadau amrywiol eraill: i gynnwys yr ad-daliad TAW rhannol gan CBSC; cyfraniad blynyddol gan y Comisiwn Beddi Rhyfel a llog o gyfrif cadw HSBC | 411.91 |
| **Cyfanswm Incwm** | **40,362.25** |
| | |
| Costau Rhedeg a Chynnal a Chadw Cyffredinol | |
| Gweinyddol yn cynnwys costau cyflogi, bancio, yswiriant, offer swyddfa, costau printio, postio, deunydd ysgrifennu, ffôn a'r we | 14,084.20 |
| Costau cynnal a chadw a rhedeg Neuadd y Pentref | 2,749.71 |
| Costau cynnal a chadw cyffredinol y pentref | 1,173.90 |
| Costau cynnal a chadw a datblygu'r fynwent | 3,808.00 |
| Darparu sgipiau cymunedol | 2,328.00 |
| Cynnal a chadw'r llwybr cyhoeddus | 1,250.00 |
| Gwaith cynnal a chadw coed – clefyd Gwywiad yr Onnen a gwaith diogelwch arall | 470.00 |
| Llywodraethu | |
| Ffioedd archwilio, cyngor a ffioedd cyfreithiol/proffesiynol, hyfforddiant a thanysgrifiadau | 2,636.95 |
| Gwybodaeth Gyhoeddus | |
| Gwefan a gwasanaethau cyfieithu | 208.84 |
| Rhoddion | |

| | |
|---|---|
| (i) Rhoddion a wnaed i 3 sefydliad nid-er-elw;<br>Clwb Ffilmiau Trefriw; Ambiwlans Awyr Cymru; Urdd Gobaith Cymru<br>(ii) Rhodd flynyddol i’r Lleng Brydeinig Frenhinol am ddarparu torch pabi ar gyfer Gwasanaeth Coffa’r gymuned | 690.00 |
| Amrywiol | |
| Cronfa Ddewisol y Cadeirydd a Miri’r Pentref | 609.85 |
| Trosglwyddo Asedau / Cronfeydd wrth gefn (gweddill yr arian o gyllideb 2023/24 naill ai yn aros i’w wario neu ei drosglwyddo i’r cronfeydd wrth gefn penodol) | |
| Parciau chwarae Ffordd Gower a Bro Geirionnydd | 1,000.00 |
| Gwaith estyniad mynwent Trefriw | 6,825.00 |
| Clefyd Gwywiad yr Onnen a gwaith coed cyffredinol | 1,530.00 |
| Diffibrilwyr | 600.00 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **39,964.45** |
| | |
| Cronfeydd wrth gefn penodol ar 31/03/2024 | **48,165.00** |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar 31/03/2024 | **25,582.63** |